DYDDIAD I'R DYDDIADURON
25 Mehefin 2009

Cyfle i ffotograffwyr a chriwiau teledu a radio

GŴYL ATHLETAU DE CYMRU YR URDD

Gŵyl Athletau De Cymru: Dydd Iau, 2 Gorffennaf, Caerdydd

Bydd dros fil o athletwyr ifanc o holl ysgolion uwchradd Cymraeg De Cymru yn ymgynnull yn Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd yn Lecwith ddydd Iau, 2 Gorffennaf i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau athletau. Mae'r ŵyl yma yn cael ei chynnal ers dros bymtheg mlynedd ac, fel y cystadleuwyr ifanc, yn mynd o nerth i nerth.

Diwedd

Am fwy o fanylion neu cysyllter â Manon Llwyd, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613112, manonllwyd@urdd.org. Neu 07976 330360.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.
- Mae gan yr Urdd dri chylchgrawn bywiog sef **Cip**, **Bore Da** a **iaw!**. Cyhoeddir deg rhifyn yr un o'r cylchgronau'n flynyddol ac maent yn cael eu prynu gan 10,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru bob mis. Mae **Cip** wedi ei anelu at Gymry Cymraeg cynradd, **Bore Da** at ddysgwyr cynradd a **iaw!** at ddysgwyr uwchradd.